Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru):
## Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

Chwefror 2021



ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6293**
E-bost: **michael.dauncey@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru):
## Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

Chwefror 2021

**Awdur:**
Michael Dauncey

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Gwaith craffu Cyfnod 1 ........ 2**

**3. Gwelliannau Cyfnod 2 ........ 3**

Crynodeb ........ 3

Grŵp 1: Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw ........ 5

Grŵp 2: Y Gymraeg ........ 5

Grŵp 3: Sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf ........ 6

Grŵp 4: Addysg lles mislifol ........ 6

Grŵp 5: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ........ 6

Grŵp 6: Amserlen weithredu ........ 6

Grŵp 7: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ........ 7

Grŵp 8: Gweithredu cwricwlwm: Eithriadau ........ 7

Grŵp 9: Addysg heblaw yn yr ysgol ........ 8

Grŵp 10: Asesu a chynnydd ........ 8

Grŵp 11: Iechyd meddwl a lles emosiynol ........ 8

Grŵp 12: Dyletswyddau: Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig ........ 8

Grŵp 13: Darparu gwybodaeth ........ 9

Grŵp 14: Dyletswyddau a chanllawiau cyffredinol ........ 9

Grŵp 15: Plant a phersonau ifanc sydd wedi eu cadw ............................. 10

Grŵp 16: Adrodd ............................. 10

Grŵp 17: Cyffredinol ............................. 10

**4. Y camau nesaf: Cyfnod 3 a thu hwnt ............................. 11**

# 1. Cyflwyniad

1. Cyflwynodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, y **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** ['y Bil'] i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3 o **broses ddeddfwriaethol y Senedd**.
2. Ar yr amod ei fod yn pasio'n llwyddiannus drwy'r Senedd, bydd y Bil yn darparu'r sylfaen statudol i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm ar gyfer plant 3 i 16 oed. Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1988 ar sail Cymru a Lloegr. Er bod datganoli wedi galluogi addasu'r cwricwlwm yng Nghymru, yn fwyaf arbennig yn 2010 gyda chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn lle Cyfnod Allweddol 1, mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi'r tro cyntaf y llunnir cwricwlwm penodol i Gymru.
3. Mae'r Bil yn nodi gwyriad sylweddol oddi wrth natur gymharol ragnodedig y cwricwlwm cenedlaethol presennol. Y bwriad yw i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei arwain yn bennaf gan ddibenion yn hytrach na chynnwys, a chanolbwyntio mwy ar sgiliau, ac mae'n rhoi cryn hyblygrwydd i ysgolion lunio eu cwricwlwm eu hunain, o fewn fframwaith cenedlaethol eang a ddarperir gan y Bil a chodau a chanllawiau cysylltiedig. Mae'r ymagwedd newydd hon tuag at y cwricwlwm yn dilyn adroddiad **'Dyfodol Llwyddiannus'** yr Athro Graham Donaldson yn 2015.
4. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi'i strwythuro o amgylch pedwar diben, chwe maes dysgu a phrofiad, tri sgìl trawsgwricwlaidd, pedair elfen orfodol, a sawl gofyniad cwricwlwm. Bydd manylion eraill y cwricwlwm yn cael eu cynnwys mewn tri chod statudol a chyfres o ganllawiau statudol. Ym mis Ionawr 2020, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cwricwlwm i Gymru**, a'i nod yw ei wneud yn statudol ar ôl i'r Bil gael ei basio.
5. I gael rhagor o wybodaeth am y Bil ei hun, gweler y **Crynodeb o'r Bil** a gyhoeddwyd gennym pan gyflwynwyd y Bil. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y newidiadau i'r Bil yng Nghyfnod 2, yn hytrach na'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud, sydd eisoes wedi'i nodi yn y Crynodeb o'r Bil.

# 2. Gwaith craffu Cyfnod 1

**6.** Cynhaliodd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** waith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1. Mae **Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Senedd hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil.

**7.** Cefnogodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg egwyddorion cyffredinol y Bil a'r ymagwedd wedi'i lywio gan ddibenion yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, ond mynegodd bryderon ynghylch trefniadau gweithredu'r Cwricwlwm ac o ran a fydd pob plentyn ledled Cymru yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau o'u haddysg.

**8.** Gwnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 66 o argymhellion. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar geisio'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd lleol a chysondeb cenedlaethol, a sicrhau nad yw'r anghydraddoldebau presennol yn cael eu gwaethygu. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ymagwedd y Bil yn golygu na fydd y cwricwlwm newydd union yr un peth ar draws pob ysgol, ond mae'n annog bod yn rhaid iddo fod yn ddigon cyson o hyd.

**9.** Gellir gweld ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r tri Phwyllgor ar **dudalen y Bil** ar wefan y Senedd.

**10.** Cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar **15 Rhagfyr 2020**.

# 3. Gwelliannau Cyfnod 2

## Crynodeb

**11.** Dechreuodd Cyfnod 2 ar 16 Rhagfyr 2020, a daeth i ben ar 29 Ionawr 2021. Cyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i drafod a gwaredu'r gwelliannau Cyfnod 2 ar **29 Ionawr 2021**.

**12.** Cyflwynwyd 89 o welliannau yng Nghyfnod 2. O'r rhain, cyflwynwyd 40 gan y Gweinidog, a chyflwynwyd 49 gan Aelodau'r Pwyllgor (40 gan Suzy Davies AS a 9 gan Sian Gwenllian AS).

- Cytunwyd ar bob un o'r 40 o welliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog.
- O blith y 49 o welliannau eraill:
  - Gwrthodwyd 42 ohonynt.
  - Roedd chwech ohonynt naill ai wedi eu tynnu yn ôl neu heb eu cynnig yn dilyn esboniadau a sicrwydd gan y Gweinidog (gwelliannau 70, 89, 71, 72, 76, 79) [wedi eu rhestru yn y drefn y cawsant eu hystyried gan y Pwyllgor Plant, Phobl Ifanc ac Addysg].
  - Methodd un gwelliant (gwelliant 82) am ei fod yn ganlyniadol i welliant a wrthodwyd yn gynharach.

**13.** Mae **cofnodion** a **thrawsgrifiad** cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (**29 Ionawr 2021**) yn nodi'r trafodion yn fanwl.

**14.** Gellir dadlau mai'r gwelliannau mwyaf sylweddol y cytunwyd arnynt oedd y canlynol:

- Newid yn y mecanwaith a ddefnyddir gan y Bil fel y gellir parhau â'r arferion presennol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle caiff plant o dan 7 oed eu trochi yn yr iaith Gymraeg. Yn hytrach na rhoi pŵer i leoliadau unigol ddatgymhwyso'r gofyniad i addysgu Saesneg, mae'r Bil bellach yn gwneud Saesneg yn orfodol i blant dros 7 oed (o Flwyddyn 3 ymlaen) yn unig.
- Mae sawl newid i'r darpariaethau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, o gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd:
  - Lle mae'n ofynnol i ysgolion â chymeriad crefyddol ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg anenwadol, rhaid iddynt oll wneud hynny gan roi sylw i'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol ac a bennwyd ar gyfer pob ysgol, yn hytrach na bod gwahaniaethau yn dibynnu ar gategori llywodraethu'r ysgol.

- Bydd y ddarpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg bellach yn adlewyrchu'r traddodiadau a'r argyhoeddiadau yng Nghymru yn hytrach na Phrydain Fawr yn unol â'r Bil fel y'i cyflwynwyd.
- Newidiadau sy'n ymwneud â chyfansoddiad a threfniadau gweinyddol Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau'r Meysydd Llafur Cytunedig.

- Dyletswydd newydd ar bersonau penodol (gan gynnwys penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion) i ystyried iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc o ran sut maent yn cyflwyno'r cwricwlwm.

**15.** Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2, gwnaeth y Gweinidog nifer o ymrwymiadau, gan gynnwys y canlynol:

- Wrth ddadlau yn erbyn gwelliant yn gofyn am god statudol ar sut y caiff y Gymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhai cyfrwng Saesneg (cod ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar un continwwm), dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu 'fframwaith iaith Gymraeg'.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gweithio gyda'r Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i sicrhau y byddai addysg lles mislifol yn cael ei chynnwys yn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio mor galed â phosibl i roi'r manylion o ran sut caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu darparu o dan y cwricwlwm newydd, a'i bod yn 'gwbl benderfynol' y byddai fersiwn ddrafft o'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2021.
- Gan ddadlau bod y ddyletswydd i roi sylw i iechyd meddwl a llesiant yn bwysicach na nodi cynnwys mandadol ar gyfer y cwricwlwm ar wyneb y Bil, ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n adolygu, ac yn ceisio cryfhau, cyfeiriadau at iechyd meddwl o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.
- Wrth ddadlau yn erbyn gwelliant i gynnwys dyletswydd i roi sylw dyladwy i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl ag Anableddau, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru ymateb yn gadarnhaol i bryderon yn y maes hwn.

**16.** Cafodd y gwelliannau eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn hwyluso'r ddadl. Roedd 17 o grwpiau a drafodir yn eu tro yn yr adran a ganlyn.

## Grŵp 1: Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw

**17.** Gwrthodwyd gwelliannau a fyddai'n creu gofyniad penodol ar wyneb y Bil i addysgu Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw – boed hynny fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, fel elfen fandadol o'r cwricwlwm, neu wedi'i nodi fel cysyniad allweddol yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Gan ddadlau yn erbyn y gwelliannau, dywedodd y Gweinidog y byddai cynnwys o'r fath eisoes yn fandadol drwy'r canllawiau statudol a gyhoeddir fel sail i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

## Grŵp 2: Y Gymraeg

**18.** Roedd gwelliannau'r Gweinidog (gwelliannau 2 i 5) yn mynd i'r afael ag un o'r materion amlycaf a ddaeth i'r amlwg yn y gwaith craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1. Eu heffaith yw peidio â gwneud addysgu Saesneg yn fandadol cyn Blwyddyn 3, gan alluogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg i barhau â'r arfer sefydledig o drochi plant yn y Gymraeg hyd at 7 oed i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1, roedd y Bil wedi darparu ar gyfer y posibilrwydd hwn ond roedd yn dibynnu ar leoliadau unigol yn datgymhwyso statws mandadol y Saesneg cyn 7 oed.

**19.** Roedd gwelliant arall (gwelliant 8) a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael, ac i hybu mynediad atynt. Mae hyn yn disodli dyletswydd bresennol ar awdurdodau lleol a fydd yn peidio â bod yn gymwys pan ddaw'r cwricwlwm newydd i rym.

**20.** Gwrthodwyd gwelliant 44, a oedd yn ceisio sefydlu cod statudol ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar un continwwm. Mae hyn yn rhywbeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi galw amdano i roi eglurder a chyfeiriad ar gyfer sut y bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhai cyfrwng Saesneg o dan y cwricwlwm newydd. Tynnwyd sylw at y mater hwn yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i'w ddatrys.

**21.** Er nad oedd y Gweinidog yn gweld yr angen am god statudol, dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu 'fframwaith iaith Gymraeg' i fynd i'r afael â phryderon o'r fath. Dywedodd mai nod fframwaith o'r fath fyddai rhoi cefnogaeth benodol i'r rhai sy'n addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gan gydnabod bod angen cryn welliant i'r perwyl hwn.

## Grŵp 3: Sgiliau achub bywyd a chymorth cyntaf

**22.** Gwrthodwyd gwelliannau a oedd yn ceisio cynnwys achub bywyd a chymorth cyntaf fel cysyniad allweddol yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig ac fel elfen fandadol yn y cwricwlwm.

**23.** Dadleuodd y Gweinidog fod hyn yn ddiangen gan y byddai eitemau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y canllawiau statudol a gyhoeddwyd ynghylch y Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

## Grŵp 4: Addysg lles mislifol

**24.** Gwrthodwyd gwelliannau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i addysg lles mislifol gael ei chynnwys yn y cod statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i nodi fel rhan o'r elfen fandadol ohoni.

**25.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog y byddai'n cydweithio â'r gweithgor i ddatblygu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i sicrhau bod y pwnc hwn yn cael ei gynnwys yn y cod.

## Grŵp 5: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

**26.** Ni chytunwyd ar unrhyw un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn. Roeddent yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a darparwyr blynyddoedd cynnar ymgynghori â rhieni ynglŷn â'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a roddir i ddisgyblion, i'r addysg honno annog dysgwyr i ystyried gwerth bywyd teuluol, a gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

**27.** Wrth ddadlau yn erbyn y gwelliant ynghylch yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Cod, dywedodd y Gweinidog ei bod yn 'gwbl benderfynol' y byddai fersiwn ddrafft yn barod ar gyfer ymgynghori erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

## Grŵp 6: Amserlen weithredu

**28.** Gwrthodwyd gwelliannau a fyddai wedi caniatáu i ysgol ohirio mabwysiadu'r cwricwlwm yr oedd wedi'i gynllunio ar gyfer hyd at flwyddyn oherwydd y tarfu yn sgil COVID-19. Nid yw'r Bil yn nodi pryd y bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael statws statudol, er bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2022 ymlaen. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu** ym mis Ionawr 2021.

**29.** Cytunodd y Gweinidog fod y tarfu yn sgil COVID-19 yn 'broblem go iawn' ond dadleuodd mai'r ateb oedd cefnogi ysgolion unigol i baratoi ar gyfer gweithredu yn hytrach nag arafu'r broses.

## Grŵp 7: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**30.** Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog, a oedd yn mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad Cyfnod 1.

**31.** Yn sgil gwelliannau 15 i 17, dilëwyd yr hyn a ystyriwyd gan rai rhanddeiliaid i fod yn anghysondeb yn y gwahanol ofynion ar ysgolion â chymeriad crefyddol, yn ôl eu categori llywodraethu. Mae'r Bil yn darparu i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol gynllunio a darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'u ffydd eu hunain yn ogystal â math o'r addysg honno sy'n cyd-fynd â'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol ac a bennwyd ar gyfer pob ysgol. Fodd bynnag, fel y'i cyflwynwyd yng Nghyfnod 1, roedd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol gynnig math o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig tra bod yn rhaid i ysgolion gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol ddarparu'r addysg honno gan 'roi sylw' i'r maes llafur cytunedig yn unig. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2, yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol sydd â chymeriad crefyddol – boed yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir – gynnig addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan 'roi sylw' i'r maes llafur cytunedig.

**32.** Yn sgil gwelliannau 18 i 20, cafodd y gofyniad yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg adlewyrchu traddodiadau ac argyhoeddiadau athronyddol ym 'Mhrydain Fawr' ei newid i ofyniad i adlewyrchu traddodiadau ac argyhoeddiadau athronyddol yng 'Nghymru'.

**33.** Newidiodd gwelliannau 29 i 34 y darpariaethau yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn ymwneud â chyfansoddiad a threfniadau gweinyddol Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch yr addysg honno a ddarperir ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd y gwelliannau'n ymateb i bryderon a godwyd yn ystod Cyfnod 1 ynghylch yr effaith y gallai'r darpariaethau yn y Bil fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol ei chael ar hawliau pleidleisio o fewn y sefydliadau.

## Grŵp 8: Gweithredu cwricwlwm: Eithriadau

**34.** Gwrthodwyd gwelliant 62, a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd wrth wneud eithriadau i ofynion y cwricwlwm er mwyn hwyluso gwaith datblygu ac arbrofion. Dywedodd y Gweinidog fod y gofyniad presennol i wybodaeth gael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd yn ddigonol.

**35.** Gwrthodwyd gwelliannau 63 a 64 ynghylch apeliadau yn erbyn eithriadau dros dro i blant unigol hefyd.

## Grŵp 9: Addysg heblaw yn yr ysgol

**36.** Gwrthodwyd gwelliant 65, a oedd â'r nod o sicrhau bod y cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol yn addas ar gyfer dysgwyr unigol. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ddiangen gan fod y Bil eisoes yn darparu ar gyfer hyn.

**37.** Gwrthodwyd gwelliannau 67 a 68 yn ymwneud â'r broses gwyno ynghylch y cwricwlwm a ddarperir mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau addysg eraill.

## Grŵp 10: Asesu a chynnydd

**38.** Roedd gwelliant 6, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y dylai'r Bil orfodi yn hytrach na chaniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch trefniadau asesu.

**39.** Fodd bynnag, dadleuodd y Gweinidog yn erbyn gwelliant 69, a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau cynnydd blynyddol yn y tri sgìl trawsgwricwlaidd mandadol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Gwrthododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y gwelliant hwn wedi hynny.

## Grŵp 11: Iechyd meddwl a lles emosiynol

**40.** Roedd gwelliant 7, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn ymateb i argymhelliad 9 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a nododd y dylai'r Bil gyfeirio'n benodol at iechyd a lles meddyliol a'i le yn y cwricwlwm. Mae'r gwelliant yn gosod dyletswydd ar bersonau penodol i roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc wrth arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth. Cytunwyd ar y gwelliant.

**41.** Dywedodd y Gweinidog y byddai dyletswydd o'r fath yn fwy effeithiol o ran sicrhau bod iechyd meddwl yn cael blaenoriaeth mewn ysgolion na'i gynnwys fel elfen fandadol o'r cwricwlwm ar wyneb y Bil. Ychwanegodd y bydd iechyd meddwl eisoes yn gysyniad allweddol yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ond ymrwymodd i adolygu a cheisio cryfhau hyn.

## Grŵp 12: Dyletswyddau: Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig

**42.** Nod y gwelliannau yn y grŵp hwn oedd gosod dyletswydd ar bersonau perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y

Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Nod y gwelliannau oedd rhoi effaith i argymhelliad 13 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**43.** Mae darpariaethau tebyg yn bodoli yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ond yn yr achosion hynny cawsant eu hychwanegu drwy welliant yn dilyn gwaith craffu.

**44.** Yn hanesyddol mae Llywodraeth Cymru wedi osgoi dyletswydd i 'roi sylw' ar wyneb deddfwriaeth ac, fel y nodwyd uchod, dim ond o ganlyniad i waith craffu a diwygiadau yn ystod proses ddeddfwriaethol y Senedd y cafodd darpariaethau tebyg mewn Deddfau eraill eu cynnwys. Y rheswm am hyn yw ei bod o'r farn bod gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn statws statudol eisoes drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ac na ddylai deddfwriaeth newydd ailadrodd yr hyn sydd eisoes ar y llyfr statud. Ar ben hynny, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi'i anelu at wladwriaethau yn hytrach na darparwyr gwasanaethau rheng flaen, ac mai mater i Lywodraethau yw sicrhau cydymffurfiaeth drwy eu cyfreithiau, eu camau gweinyddol, a mesurau eraill.

**45.** Er ei bod yn dadlau yn erbyn y gwelliannau, ymrwymodd y Gweinidog i ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru ymateb yn gadarnhaol i argymhelliad y Pwyllgor, gan daro cydbwysedd rhwng hyrwyddo hawliau a sicrhau bod sefyllfa hydrin i benaethiaid ac ysgolion unigol. Yn dilyn hynny, cafodd y gwelliannau eu tynnu yn ôl neu nis cynigiwyd.

## Grŵp 13: Darparu gwybodaeth

**46.** Gwrthodwyd gwelliant a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol roi gwybodaeth am sut y maent yn cyflawni amryw ddyletswyddau i 'roi sylw' yn y Bil.

## Grŵp 14: Dyletswyddau a chanllawiau cyffredinol

**47.** Roedd gwelliant 21, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn mewnosod dyletswydd ar bersonau penodol (e.e. penaethiaid, cyrff llywodraethu ysgolion, sefydliadau addysg bellach) i gydweithio â'i gilydd lle maent o'r farn y byddai hyn yn hwyluso arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

**48.** Gwnaeth gwelliannau 22 i 24 fân newidiadau drafftio i'r Bil.

**49.** Gwrthodwyd y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn. Fodd bynnag, wrth ddadlau yn erbyn gwelliant 74 ynghylch amserlen ar gyfer argaeledd canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac addysg Crefydd, Gwerthoedd a

Moeseg, dywedodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio mor galed â phosibl i roi'r manylion ar sut y bydd y ddwy elfen orfodol hyn o'r cwricwlwm yn cael eu cyflwyno.

## Grŵp 15: Plant a phersonau ifanc sydd wedi eu cadw

**50.** Roedd gwelliant 25, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, yn mewnosod adran newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cymhwyso'r Ddeddf i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cadw o dan y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Heb y gwelliant, ni fyddai'r hawliau cwricwlwm yn y Ddeddf yn berthnasol i blant a phobl ifanc o'r fath.

## Grŵp 16: Adrodd

**51.** Ceisiodd gwelliant ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y Ddeddf bob blwyddyn tan 2028. Yng ngoleuni cyhoeddi Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiadau blynyddol, ynghyd â chyfleoedd i drafod hyn ymhellach yng Nghyfnod 3, tynnodd yr Aelod y gwelliant yn ôl.

## Grŵp 17: Cyffredinol

**52.** Gwnaeth gwelliannau yn y grŵp hwn sawl newid i weithdrefnau ar gyfer codau a rheoliadau, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd yn hytrach na'r weithdrefn negyddol.

# 4. Y camau nesaf: Cyfnod 3 a thu hwnt

**53.** Dechreuodd y Bil fynd drwy Gyfnod 3 o broses ddeddfwriaethol y Senedd ar 1 Chwefror 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Gweinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r **Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2**. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar **dudalen y Bil**.

**54.** Bydd y Senedd gyfan yn gwaredu'r gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 2 Mawrth 2021. Yna, gofynnir i'r Senedd bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yng Nghyfnod 4 ai peidio, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mawrth 2021.

**55.** Os caiff Bil ei basio gan y Senedd yng Nghyfnod 4, rhaid i Fil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines cyn dod yn gyfraith.

**56.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru fesul cam o fis Medi 2022 ymlaen, mewn ysgolion cynradd ac ym mlwyddyn 7 (blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd fel arfer) i ddechrau. Yna, bydd yn cael ei gyflwyno i'r grwpiau blwyddyn dilynol wrth i'r disgyblion hynny fynd drwy'r ysgol, hyd nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

**57.** Bydd angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r gwahanol godau a chanllawiau cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ac mae wedi cyhoeddi **cynllun gweithredu**.